

Archwilio Ein Byd

Pobl Arbennig



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Ein Byd

Pobl Arbennig

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO EIN BYD

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau, ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well. Gyda'i gilydd, maen nhw'n archwilio'r themâu poblogaidd, sef dathliadau, fi fy hun ac eraill, adegau a thymhorau, teithiau, pobl arbennig, ac arwyddion a symbolau.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer plant iau a phlant hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae chwe llyfr stori yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol (Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd). Teitlau'r chwe llyfr stori yw:

Plant 3 – 5 oed

- Dathliadau
- Fi fy hun ac Eraill
- Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed

- Teithiau
- Pobl Arbennig
- Arwyddion a Symbolau

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 154 o syniadau am weithgareddau a 11 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Ein Byd*

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth mae nyrsys yn ei wneud
- Archwiliwch beth fyddai nyrsys ei angen ar eu desg

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs wrth fynd i mewn i ystafell y nyrs
- Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei weld yn y llun y tu ôl i'r nyrs

Datblygiad iaith Gymraeg

- nyrs
- bathodyn enw

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i wneud ymarferiadau ymestyn i'ch helpu i fyw bywyd iach (**Gweithgaredd 1**)
- Cerddwch yn gyflym i godi lefel curiad eich calon

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gollage o luniau o nyrsys
- Gwnewch fathodyn enw ar gyfer nyrs

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwahoddwch rywun o draddodiad crefyddol i ddweud pam mae eu crefydd yn addysgu pa mor bwysig yw gofalu am y corff
- Ewch ati i ddarganfod sut mae gofal iechyd yn cael ei ariannu

Datblygiad mathemategol

- Gwnewch graff o daldra plant y dosbarth
- Gwnewch siartiau bar o bwysau plant y dosbarth

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol



Cwestiynau








Cyfrifoldeb



Ymarferion ymestyn

Ydych chi'n gallu gwneud yr ymarferion ymestyn hyn?
Cymerwch ofal ac ymestyn yn araf iawn.





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch brechiadau
- Archwiliwch pa frechiadau sy'n cael eu hargymell

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am gael eich brechu
- Lluniwch siart diwrnod yn wythnos waith nyrs gan ddefnyddio lluniau a thestun

Datblygiad iaith Gymraeg

- brechiad
- tystysgrif

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch gêm 'Tag' lle mae'r un sy'n gwneud y 'tagio' yn gorfod enwi afiechyd pan fyddan nhw'n 'tagio' rhywun
- Eisteddwch yn dawel ar ôl y brechiad

Datblygiad creadigol

- Gwnewch ystafell aros ar gyfer y Ganolfan Iechyd
- Gwnewch bosteri ar gyfer waliau'r Ganolfan Iechyd

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ddysgu am ofal iechyd mewn gwledydd eraill
- Ewch ati i ddarganfod sut mae elusennau sy'n gysylltiedig â gwahanol draddodiadau crefyddol yn cefnogi iechyd (e.e. Cymorth Cristnogol, Muslim Aid)

Datblygiad mathemategol

- Faint o blant y dosbarth sydd wedi ymweld ag ysbyty? (**Gweithgaredd 2**)
- Pa mor bell yw'r daith i'r Ganolfan Iechyd agosaf?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Faint o bobl sydd wedi bod mewn canolfan iechyd ac ysbyty?

Gan ddefnyddio'r templed lluniwch eich graff bloc eich hunan. Defnyddiwch liwiau neu luniau i ddangos faint o blant eich dosbarth sydd wedi bod mewn canolfan iechyd ac ysbyty.



Enghraifft





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch ficeriaid (**Gweithgaredd 3**)
- Archwiliwch beth mae ficeriaid yn ei wisgo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei weld yn y llun y tu ôl i'r ficer
- Disgrifiwch y lliwiau yn y ffenestr

Datblygiad iaith Gymraeg

- ficer
- eglwys

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymestyn eich breichiau i groesawu ymwelwyr i'r eglwys
- Ewch am dro i ddod o hyd i eglwys

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch gynllun ffordd syml i leoli'r eglwys ar y stryd
- Gwnewch goler gron wen, i'r ficer ei gwisgo


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Holwch ynghylch gwahanol fathau o adeiladau Cristnogol yn eich ardal leol
- Siaradwch am sut mae adeilad yr eglwys yn edrych yn wahanol i'r adeiladau eraill yn yr ardal

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch pa mor bell rydych chi wedi ei gerdded i'ch eglwys leol
- Gan edrych ar enwau ficeriaid mewn eglwys leol, cyfrifwch faint o ficeriaid sydd wedi bod yno ers 1900

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Cwestiynau i'r ficer

Meddylwch am rai cwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i'r ficer.
Ceisiwch ddefnyddio geiriau gwahanol i ddechrau pob cwestiwn.

Beth?

Pryd?

Pam?

Sut?



Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth mae'r ficer yn ei wneud wrth y bedyddfaen
- Archwiliwch beth mae'r ficer yn ei wneud wrth yr allor

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs yn swyddfa'r ficer
- Lluniwch siart diwrnod yn wythnos waith y ficer gan ddefnyddio lluniau a thestun

Datblygiad iaith Gymraeg

- bedyddfaen
- bendith

Datblygiad corfforol

- Penliniwch yn dawel ar gyfer bendith gan y ficer
- Chwaraewch rôl bod yn ficer yn rhoi bendith

Datblygiad creadigol

- Addurnwch focs cyflwyno ar gyfer croesau Peter a Mary
- Dyluniwch stola i'r ficer ei gwisgo (**Gweithgaredd 4**)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod pam mae gwahanol fathau o eglwysi
- Ar ba ddydd mae ficeriaid yn cynnal eu prif wasanaethau?

Datblygiad mathemategol

- Faint o blant sydd wedi bod mewn gwasanaeth yn yr eglwys?
- Faint o blant sydd wedi cael eu bedyddio mewn eglwys?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol



Ymatebion
personol










Ystyr



Cynlluniwch stola

Cynlluniwch chi stola ar gyfer ficer. Ar waelod y dudalen fe welwch chi gynlluniau allai roi syniadau i chi.





Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch rabiniaid
- Archwiliwch beth mae rabiniaid yn ei wisgo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei weld yn y llun o'r synagog
- Disgrifiwch beth mae'r rabi yn ei wisgo

Datblygiad iaith Gymraeg

- synagog
- rabi

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl croesi stryd brysur yn ofalus iawn i ddod o hyd i'r synagog, gan gymryd eich tro i fod yn geir prysur a cherddwyr
- Daliwch fap ac ewch ar daith i fan arbennig yn y cae chwarae

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch siôl weddio ar gyfer y rabi
- Gnewch Seren Dafydd i'r rabi ei gwisgo


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ddarganfod pam mae'r rabi'n gwisgo siôl weddio
- Ewch ati i ddarganfod pam mae'r rabi'n gwisgo Seren Dafydd

Datblygiad mathemategol

- Sawl triongl sydd yn Seren Dafydd?
- Crëwch drionglau o wahanol siapiau (**Gweithgaredd 5**)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Fy nhrionglau

Casglwch ffyn o wahanol feintiau. Arbrofwch drwy ddefnyddio ffyn o wahanol faint i greu triongl.

- Pa fathau o drionglau ydych chi'n gallu eu gwneud?
Tynnwch lun rhai o'ch trionglau yma, gan ddefnyddio pren mesur i gadw eich llinellau'n syth.





Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth mae'r rabi'n ei wneud gyda sgroliau'r Torah
- Archwiliwch pam mae'r Torah wedi ei ysgrifennu ar sgroliau yn hytrach nag mewn llyfr

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs yn swyddfa'r rabi
- Lluniwch siart diwrnod yn wythnos waith rabi gan ddefnyddio lluniau a thestun (**Gweithgaredd 6**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- sgrôl
- darllen yn uchel

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i sefyll yn dal i ddarllen y Torah fel y rabi
- Chwaraewch rôl cario'r sgroliau at y ddarllenfa

Datblygiad creadigol

- Gwnewch sgroliau Torah i'w darllen yn y synagog
- Addurnwch focs cyflwyno ar gyfer sgroliau Torah bach Nathan a Rachel

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod ble mae eich synagog agosaf wedi ei lleoli
- Ar ba ddydd mae rabiniaid yn cynnal eu prif wasanaethau

Datblygiad mathemategol

- Pa mor hir yw eich sgrôl?
- Pa mor drwm yw eich sgrôl?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol



Ymatebion
personol




Cwestiynau




Diwrnod ym mywyd _____

Ychwanegwch eiriau a lluniau at y ffordd i ddisgrifio'r diwrnod.



brecwast



gwely



Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch imamiaid
- Archwiliwch beth mae imamiaid yn ei wisgo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei weld yn y llun y tu ôl i Ahmed a Salma
- Disgrifiwch beth mae'r imam yn ei wisgo

Datblygiad iaith Gymraeg

- crys
- trowsus

Datblygiad corfforol

- Cerddwch yn ofalus heb esgidiau fel yr imam
- Gwnewch siapiau fel cromenni a ffenestri'r mosg drwy ddefnyddio eich corff

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch batrwm steil Islamaidd ar gyfer y mosg
- Dyluniwch gap i'r imam


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod ble mae eich synagog agosaf wedi ei lleoli
- Holwch ynghylch y bobl sy'n mynd yno

Datblygiad mathemategol

- Faint o ffenestri ydych chi'n gallu eu gweld yn y llun o'r mosg?
- Tynnwch lun patrwm geometrig syml ar gyfer y mosg (**Gweithgaredd 7**)




Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Fy mhatrwm geometrig

Defnyddiwch grid mawr i gopïo ac ehangu un o'r patrymau.
Gwnewch y gwaith copïo fesul adran.





Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pam mae'r Qur'an gan yr imam
- Archwiliwch pam mae gleiniau gweddïo ar ddesg yr imam

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs yn swyddfa'r imam
- Lluniwch siart diwrnod yn wythnos waith imam gan ddefnyddio lluniau a thestun

Datblygiad iaith Gymraeg

- mat gweddïo
- gleiniau gweddïo

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer y ffordd mae'r imam yn sefyll, yn ymgrymu, ac yn penlinio i weddïo (**Gweithgaredd 8**)
- Ymolchwch yn barchus cyn mynd i mewn i'r neuadd weddïo fel yr imam

Datblygiad creadigol

- Gwnewch fat gweddïo ar gyfer yr imam
- Ewch ati i wneud gleiniau gweddïo ar gyfer yr imam

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod rhai gwledydd Mwslimaidd
- Ar ba ddydd mae imamiaid yn cynnal eu prif wasanaethau

Datblygiad mathemategol

- Sawl glain wnaethoch chi ei ddefnyddio i wneud eich gleiniau gweddïo?
- Faint o wledydd Mwslimaidd ydych chi'n gallu dod o hyd iddyn nhw?





Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Pob ystum gweddïo Mwslimaidd

Ydych chi'n gallu gwneud pob ystum gweddïo Mwslimaidd?





Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch offeiriadon Hindŵaidd
- Holwch ynghylch beth mae offeiriadon Hindŵaidd yn ei wisgo

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y llun o'r offeiriad
- Adroddwch stori am Rajeev a Meena'n gwneud eu hunain yn barod i ymweld â'r deml

Datblygiad iaith Gymraeg

- teml
- offeiriad

Datblygiad corfforol

- Dawnsiwch i gerddoriaeth Hindŵaidd
- Meimiwch Rajeev a Meena'n cwrdd â'r offeiriad

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gollage yn dangos yr offeiriad a'r deml (**Gweithgaredd 9**)
- Gwnewch fathodyn enw ar gyfer yr offeiriad

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod ble mae eich teml Hindŵaidd wedi ei lleoli
- Rhowch wahoddiad i Hindŵ ddod i siarad am eu teml

Datblygiad mathemategol

- Pa mor bell i ffwrdd yw eich teml Hindŵaidd agosaf?
- Faint o'r plant sydd wedi gweld offeiriad Hindŵaidd?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Offeiriad Hindŵaidd

Gwnewch gollage o offeiriad Hindŵaidd gan ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau.





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch pam mae'r Gita gan yr offeiriad
- Archwiliwch sut mae'r offeiriad yn defnyddio'r lamp arti

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am y llun o'r allor a'r offrymau
- Lluniwch siart diwrnod yn wythnos waith yr offeiriad gan ddefnyddio lluniau a thestun

Datblygiad iaith Gymraeg

- allor
- offrwm

Datblygiad corfforol

- Meimiwch ddod ag offrymau at yr allor
- Adroddwch y stori ynghylch pam mae'r duw Shiva ('Arglwydd y Ddawns') yn dawnsio, a dawnsiwch fel Shiva

Datblygiad creadigol

- Cyfansoddwch gerddoriaeth i'w chwarae yn ymyl yr allor
- Gwnewch offrymau i'w cyflwyno wrth yr allor

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ddarganfod rhai gwledydd Hindŵaidd
- Ar ba ddydd mae offeiriadon Hindŵaidd yn cynnal eu prif wasanaethau?

Datblygiad mathemategol


- Faint o offrymau ydych chi wedi eu gwneud ar gyfer yr allor?
- Faint o dduwiau a duwiesau Hindŵaidd ydych chi'n gallu dod o hyd iddyn nhw? (**Gweithgaredd 10**)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Duwiau a duwiesau Hindŵaidd



Ganesh



Lakshmi



Shiva

Y duwiau a'r duwiesau Hindŵaidd rydw i wedi
dod o hyd iddyn nhw



Tudalen 24



Tudalen 25

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sydd gan y ficer, y rabi, yr imam a'r offeiriad yn gyffredin
- Pam mae eglwysi, synagogau, mosgiau a themlau yn edrych mor wahanol?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ydych chi'n gallu cofio'r pedair stori wahanol am bobl arbennig? (**Gweithgaredd 11**)
- Ysgrifennwch gerdd am bobl arbennig rydych chi'n eu hadnabod

Datblygiad iaith Gymraeg

- pobl arbennig
- ffrindiau

Datblygiad corfforol

- Datblygwch ddawns yn dangos y bobl arbennig yn cyfarfod
- Meimiwch gyfeillgarwch rhwng y gwahanol arweinwyr crefyddol

Datblygiad creadigol

- Gwnewch arddangosfa o'r pedwar person arbennig gyda'i gilydd
- Gwnewch un symbol sy'n bwysig i bob un o'r pedwar person arbennig

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ddarganfod sut mae'r arweinwyr crefyddol yn gweithio gyda'i gilydd yn eich ardal
- Ewch ati i ddarganfod sut mae'r ficeriaid, y rabiaid, yr imamiaid a'r offeiriadon yn dysgu am ei gilydd

Datblygiad mathemategol




- Mesurwch wahanol rannau eich arddangosfa o bobl arbennig
- Chwaraewch gêm 'Teuluoedd Dedwydd' gan ddefnyddio cardiau ar gyfer rabi, imam, offeiriad Hindŵaidd, ficer.

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol








Ydych chi'n gallu dweud fy stori?







Ydych chi'n gallu dweud fy stori?








Ydych chi'n gallu dweud fy stori?





Ydych chi'n gallu dweud fy stori?





Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae crefyddau'n ymwneud â byw bywyd iach.

Maes dysgu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwahoddwch rywun o draddodiad crefyddol i ddweud pam mae eu crefydd yn addysgu pa mor bwysig yw gofalu am y corff.



Agwedd ar yr ystod

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio eich ymateb personol i fyw bywyd iach.

Maes dysgu

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gollage o luniau o nyrsys.



Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio pam mae elusennau crefyddol yn cefnogi byw'n iach ledled y byd. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Ewch ati i ddarganfod sut mae elusennau sy'n gysylltiedig â gwahanol draddodiadau crefyddol yn cefnogi iechyd (e.e. Cymorth Cristnogol, Muslim Aid).
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio sut mae arweinwyr crefyddol yn cefnogi gwaith ysbytai (e.e. trwy gaplaniaethau). Datblygiad mathemategol Faint o blant y dosbarth sydd wedi ymweld ag ysbyty?
---	--



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Archwilio'r goler nodedig y mae clerigion Cristnogol yn ei gwisgo.

Datblygiad creadigol

- Gwnewch goler gron wen, i'r ficer ei gwisgo.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Archwilio beth mae ficeriaid yn ei wneud.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch fwy ynghylch ficeriaid.





Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio eich teimladau wrth i chi benlinio'n dawel a'r ficer yn datgan bendith.

Datblygiad corfforol

- Penliniwch yn dawel ar gyfer bendith gan y ficer.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Archwilio pam mae ficer yn gwisgo stolâu o wahanol liwiau.

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch stola i'r ficer ei gwisgo.





Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio'r siôl weddïo nodedig sy'n cael ei gwisgo gan y rabi.
Maes dysgu	<i>Datblygiad creadigol</i> Dyluniwch siôl weddïo ar gyfer y rabi.

Agwedd ar yr ystod	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio beth mae rabiniaid yn ei wneud.
Maes dysgu	<i>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</i> Holwch ynghylch rabiniaid.



Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio eich teimladau wrth i chi ddarllen o'r Torah.

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i sefyll yn dal i ddarllen y Torah fel y rabi.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Archwilio pa mor bwysig yw sgroliau'r Torah i rabiniaid.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth mae'r rabi'n ei wneud gyda sgroliau'r Torah.





Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Archwilio'r dillad nodedig y mae'r imam yn eu gwisgo.

laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Disgrifiwch beth mae'r imam yn ei wisgo.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Archwilio beth mae imamiaid yn ei wneud.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch imamiaid.





Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio eich teimladau wrth i chi ymarfer pob ystum gweddïo.

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer y ffordd mae'r imam yn sefyll, yn ymgrymu ac yn penlinio i weddïo.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Archwilio sut mae'r patrwm Islamaidd o weddïo'n siapio bywyd yr imam.

Datblygiad mathemategol

- Sawl glain wnaethoch chi ei ddefnyddio i wneud eich gleiniau gweddïo?





Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio'r dillad nodedig sy'n cael eu gwisgo gan offeiriad Hindŵaidd.
Maes dysgu	<i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> Siaradwch am y llun o'r offeiriad.

Agwedd ar yr ystod	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio beth mae offeiriadon Hindŵaidd yn ei wneud.
Maes dysgu	<i>Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</i> Holwch ynghylch offeiriadon Hindŵaidd.



Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio eich teimladau wrth i chi ddod ag offrymau at yr allor.
Maes dysgu	Datblygiad creadigol Gwnewch offrymau i'w cyflwyno wrth yr allor.

Agwedd ar yr ystod	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.
Datblygiad Addysg Grefyddol	Archwilio'r dylanwad y mae'r Gita'n ei gael ar siapio bywyd offeiriad Hindŵaidd.
Maes dysgu	Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Holwch ynghylch pam mae'r Gita gan yr offeiriad.



Tudalennau 24-25



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio beth sydd gan y gwahanol arweinwyr crefyddol hyn yn gyffredin.

Maes dysgu

laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Ydych chi'n gallu cofio'r pedair stori wahanol am bobl arbennig?



Agwedd ar yr ystod

Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio sut mae'r gwahanol grefyddau'n gweithio gyda'i gilydd.

Maes dysgu

Datblygiad mathemategol

- Chwaraewch gêm 'Teuluoedd Dedwydd' gan ddefnyddio cardiau ar gyfer rabi, imam, offeiriad Hindwaidd, ficer.